

# Tyfu Canolbarth Cymru Cylchlythyr mis Mawrth 2024

## Y Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Croeso cynnes i ddarllenwyr hen a newydd,

Ni sy'n rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn y Canolbarth er mwyn cyflawni ein Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r timau cyflawni lleol yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys i sicrhau bod gennym gymysgedd eang o brosiectau a fydd yn ein helpu i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a mynd i'r afael â'r heriau yn y rhanbarth.

Y mis hwn, rydym am rannu â chi wybodaeth am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, a rhoi sylw i sawl busnes a/neu sefydliad yn y Canolbarth sydd wrthi'n cyflawni prosiect neu raglen gyda chymorth cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, neu sydd â chynlluniau i wneud hynny.

Rydym hefyd yn siarad ag Area 43, Cynllun Addysg Beirianneg Cymru a swyddogion cyswllt canol trefi newydd Powys ynghylch sut y bydd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn helpu busnesau ac unigolion yn y gymuned.

Angharad Massow, ein Huwch-swyddog Cyfathrebu yw'r cydweithiwr sy'n cael sylw yn ein colofn *Cwrdd â'r Tîm* y mis hwn. Mae'n ymwneud â phob agwedd ar ein gweithgareddau cyfathrebu ac yn cynorthwyo'r tîm cyfan i sicrhau ein bod yn cyfleu'r neges iawn i'r bobl iawn ar yr adeg iawn.

Cofiwch fod modd ymateb i'n harolwg Cynllunio Ynni Ardal Leol tan 31 Mawrth.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

## Cynnwys


- Stori'r Gronfa Ffyniant Cyffredin yn y rhanbarth hyd yma
- Cyfweliad - Prosiect Reverb, Area 43
- Cyfweliad- Prosiect Peirianneg a Gweithgynhyrchu Cyflwyniad 2
- Astudiaeth Achos - Swyddogion cyswllt i gefnogi adfywio trefi
- Case Study - Bid to make Powys a top cultural tourism destination
- Cyfleoedd cyfredol gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws Canolbarth Cymru
- Rhaglen Lluosi ledled Canolbarth Cymru
- Cwrdd â'r Tîm: Angharad Massow - Uwch Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru
- Newyddion eraill TCC: Digwyddiad llwyddiannus ar ddatgarboneiddio yn helpu busnesau i baratoi ar gyfer dyfodol cynaliadwy

# Stori'r Gronfa Ffyniant Cyffredin yn y rhanbarth hyd yma

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

POWERED BY
LEVELLING UP


Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Ers i Gynllun Buddsoddi Rhanbarthol Canolbarth Cymru gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2022, mae cyfanswm o 162* o brosiectau yn y rhanbarth wedi cael cyllid. Mae'r prosiectau hyn yn werth swm anhygoel o £37 miliwn.

*Mae mwy o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo dan y cynlluniau grant cyffredinol megis Cynnal y Cardi yng Ngheredigion a Gwneud Gwahaniaeth ym Mhowys.

*Further projects have been approved under the umbrella grant schemes such as Cynnal y Cardi in Ceredigion and Making a Difference in Powys

Mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i rhannu yn 4 maes blaenoriaeth:




Mae ystod ac amrywiaeth y prosiectau hyn yn ategu uchelgais Tyfu Canolbarth Cymru i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael i greu a chynnal twf economaidd a chymdeithasol.

O grantiau bach sy'n helpu i wneud gwahaniaeth mawr i fusnesau a chymunedau lleol, i brosiectau sy'n trawsnewid lleoedd a mannau penodol, a hyfforddiant ynghylch meysydd megis sgiliau gwyrdd, sgiliau digidol a chynorthwyo ein pobl ifanc, mae ehangder y buddsoddi'n drawiadol.

Gallwch gael gwybod mwy am rai o'r prosiectau hyn yn nes ymlaen yn y llythyr newyddion hwn.

**Gweithredu'n dryloyw ac yn deg**

I sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu mewn modd tryloyw a theg, rydym wedi cynnal nifer o alwadau agored am gynigion ar gyfer prosiectau a fyddai'n cael eu cynnal rhwng mis Ebrill 2023 a mis Rhagfyr 2024.

Mae partneriaethau lleol yng Ngheredigion a Phowys wedi bod yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo ceisiadau am brosiectau. Mae'r partneriaethau'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

**Beth nesaf?**

Ein ffocws yn awr yw sicrhau ein bod yn gwario'r holl gyllid a ddyrannwyd i ni cyn y terfyn amser a bennwyd gan Lywodraeth y DU, sef mis Mawrth 2025. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran hynny, gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid eisoes wedi'i ddyrannu i brosiectau.

Mae cyfleoedd o hyd i fusnesau a chymunedau lleol gael cyllid trwy'r gwahanol gynlluniau grant sydd ar gael ym Mhowys a Cheredigion. Caiff mwy o wybodaeth am y rhain ei rhannu'n ddiweddarach yn y llythyr newyddion hwn.

Nid oes cadarnhad wedi dod i law hyd yn hyn ynghylch dyfodol y Gronfa Ffyniant Gyffredin y tu hwnt i 2025, felly nid oes trefniadau wedi'u gwneud ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw alwadau agored ychwanegol.

Rydym yn gweithio gyda rhanbarthau eraill yng Nghymru a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gael buddsoddiad parhaus gan y Llywodraeth ar ôl mis Mawrth 2025. Rydym yn gwybod o nifer y ceisiadau yr ydym wedi'u cael am gyllid bod yna alw mawr o hyd, ac rydym yn parhau i ddweud hynny wrth Lywodraeth y DU ar bob cyfle.

## Cyfweliad - Prosiect Reverb, Area 43

***Allwch chi ddweud wrtha i am eich prosiect - pwy mae'n cefnogi a sut?***

Rhaglen Area 43 yw Reverb a ariennir gan Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n elusen dan arweiniad ieuenctid, a sefydlwyd ym 1996 i ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc yn Aberteifi.

Ein cenhadaeth yw grymuso a chefnogi hawliau pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau cyngor, cwnsela a chymorth lleol, o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella eu cyfleoedd bywyd ar gyfer dyfodol gwell. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc ac eraill i hyrwyddo datblygiad gwasanaeth am ddim, sy'n canolbwyntio ar bobl a'u hanghenion.

Darllenwch maniffesto Read Area 43's yma.

***Pa mor hir mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg?***

Llynedd, fe wnaethom peilota cynllun hyfforddi a chyflogaeth, Reverb gyda chymorth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU o dan awen Ffyniant Bro i ymestyn y ddarpariaeth. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle unigryw i rai o'n pobl ifanc sydd ar wahân yn gymdeithasol ac ynysig gael mynediad i gyflogaeth mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn goresgyn anfantais. Rydym am ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn aelodau gweithgar o'r gymuned drwy ein prosiectau, hyfforddiant a sgiliau cyflogadwyedd gan eu galluogi i ennill sgiliau a phrofiad mewn amgylchedd diogel, â chymorth.



***Beth yw eich cyflawniadau / llwyddiannau allweddol hyd yn hyn?***

Mae ein cynllun hyfforddi a chyflogaeth yn cael ei gynnal yn Depot (Mae Depot wedi'i leoli yng nghanol tref Aberteifi, ac mae ar agor o 1-7pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn i bobl ifanc 14 - 25 oed, a boreau Sadwrn ar gyfer pontio ar gyfer pobl ifanc 11 - 13 oed), ac mae ar gyfer pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, bellaf o'r farchnad swyddi, gan eu galluogi i ennill sgiliau a phrofiad mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar yr elfen 'Pobl a Sgiliau' sy'n galluogi pobl ifanc i ennill sgiliau a phrofiad ymarferol mewn amgylchedd diogel a chefnogol gan gefnogi'r economi ehangach yn fwy hygyrch trwy eu grymuso i gael gwaith gyda busnesau lleol ac I i fynd i'r afael â'r prinder llafur.

Mae pob cyfranogwr Reverb yn cael ei gyflogi hyd at 18 awr yr wythnos sy'n cynnwys gweithio yn amgylchedd y caffi a derbyn hyfforddiant sy'n seiliedig ar eu sgiliau. Mae o leiaf pedair awr yn ymroddedig i sgiliau cyflogadwyedd a chynlluniau cymorth unigol i fynd i'r afael â'u hanghenion cymorth ac i annog eu hymgysylltiad yn y rhaglen.

DEPOT

Seren ganlyniadau: "*Rwyf wedi mwynhau'r profiad gwaith fel barista yn Depot. Rwyf wedi bod yn dod yma i gymdeithasu gyda fy ffrindiau ers tipyn, ond ers gwneud y cyfnod hwn o brofiad gwaith rwyf wedi gweld ochr arall i'r cymorth y mae'r staff yn ei roi i bobl ifanc. Erbyn hyn, rwy'n ddigon hyderus i herio fy ffrindiau pan fyddant yn gwneud ychydig o stŵr yma*."

Rydym hefyd yn dysgu sgiliau bywyd ein tîm, fel golchi dillad, cyllidebu, coginio, siopa a glanhau. Mae Area 43 yn aelod o Is-grŵp Tlodi Ceredigion, Grwpiau Tlodi Bwyd, Fareshare a chynlluniau Neighbourly. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â banciau bwyd a thyfwyr bwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd ledled Ceredigion. Felly, gallwn ddarparu bwyd a diodydd â chymhorthdal ac am ddim i bob person ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaethau.



Ers dechrau Gorffennaf 2023, o dan Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, rydym wedi cyflogi 18 o bobl ifanc fel Reverb Baristas (rydym yn anelu at 56 erbyn diwedd mis Rhagfyr).

Mae holl cyfranogwyr Reverb yn ennill cymwysterau Diogelwch Bwyd, Hylendid ac Alergenau Bwyd fel rhan o'r rhaglen. O'r garfan hon, mae **15** eisoes wedi cwblhau'r cymwysterau.

Mae **8** person ifanc wedi cwblhau cyfnod ar leoliad gwaith am 3 mis. Mae **1** wedi derbyn swydd, roeddem yn ei gyflogi fel gweithiwr Cymorth Ieuenctid; ac mae **3** wedi penderfynnu mynychu addysg uwch. Mae 2 yn derbyn cymorth a hyfforddiant ychwanegol gan Futureworks a Cyfle Cymru. Mae **1** yn bwriadu defnyddio eu sgiliau i weithio wrth deithio, ac mae'r **2** arall yn chwilio am waith.

Fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer ein Lleoliadau Cyflogaeth â Chymorth, ymwelodd cynrychiolwyr o Lywodraeth y DU â Depot fel model rhagorol ar gyfer y math hwn o gymorth cyflogaeth.

## Cyfweliad- Prosiect Peirianneg a Gweithgynhyrchu Cyflwyniad 2

***Allwch chi ddweud wrtha i am eich prosiect - pwy mae'n cefnogi a sut?***

Mae'r prosiect Peirianneg a Gweithgynhyrchu Cyflwyniad 2 yn cael ei ddarparu gan Gynllun Addysg Peirianneg Cymru (EESW) i gynnig cyfle i ysgolion uwchradd yng Ngheredigion gael cyfres o weithdai a ddarperir yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae'r sesiynau am ddim wedi'u hanelu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, gyda'r bwriad o helpu i gynyddu llif sgiliau talent pobl ifanc i gwrdd â chyflogadwyedd yn y rhanbarth yn y dyfodol.

Mae'r gweithdai hyn wedi'u cynllunio i gael eu cyflwyno i hyd at 30 o ddisgyblion ar y tro, fel y gall pob ysgol gymryd rhan ac yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth o fewn amserlen eu hysgol. Mae gweithgareddau'n ymarferol, ac yn gofyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd, megis gwaith tîm, cyfathrebu, codio a TG, meddwl arbrofol, datrys problemau a meddwl creadigol ac arloesol.



***Pa mor hir mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg?***

Datblygwyd rhai o'r gweithdai yn wreiddiol gan EESW fel rhan o'i brosiect STEM Cymru, a ariannwyd gan ESF hyd at 2023. Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac yn cael ei yrru gan yr ymgyrch Ffyniant Bro a weinyddir gan Cyngor Sir Ceredigion sy'n caniatáu i EESW barhau â rhywfaint o'r gwaith da a chefnogi ysgolion wrth gyflawni nodau trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm newydd i Gymru, ac mae'n cynnig gweithgaredd i bobl ifanc sy'n eu galluogi i ystyried astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) pynciau TGAU ac ôl-16, ac yn rhoi cipolwg ar opsiynau gyrfa o fewn y sector Peirianneg.

*"Roedd y gweithgareddau a gyflwynwyd o fewn y sesiynau'n cynnwys cyflwyniadau a oedd yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio technoleg fodern i gefnogi'r daith tuag at sero net - er enghraifft sut y gellir defnyddio dylunio a chodio cyfrifiadurol i weithgynhyrchu tyrbinau gwynt.” - Gwerthuswyr allanol* EESW



***Beth yw eich cyflawniadau / llwyddiannau allweddol hyd yn hyn?***

Bydd disgyblion Ysgol Henry Richard, Tregaron yn cynnal gweithdai later yn ddiweddarach ym mis Mawrth, lle byddant yn dysgu codio a reoli bygi. Byddant yn deall egwyddorion codio sylfaenol, a byddant wedi ystyried paramedrau fel amseru, pellter a dolenni.



***wedi dod ar draws unrhyw broblemau/cwestiynau?***

Mae EESW yn estyn allan i ysgolion i archebu sesiynau yn dilyn gwyliau'r Pasg, o fis Ebrill 2024. Mae EESW yn deall yr anawsterau y mae ysgolion yn eu hwynebu wrth allu dod â myfyrwyr y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac felly gellir addasu'r sesiynau i'w cyflwyno fel rhan o'r dosbarthiadau wedi'u hamserlennu, neu hyd yn oed fel clybiau STEM neu weithgaredd ar ôl ysgol. Mae gweithgareddau hefyd wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, fel y gellir eu teilwra i ystod o anghenion unigolion mewn ystafell ddosbarth.

I archebu un o'r gweithdai, dylai ysgolion lenwi ffurflen archebu neu gysylltu ag EESW ar info@stemcymru.org.uk am fwy o wybodaeth.




## Astudiaeth Achos  - Swyddogion cyswllt i gefnogi adfywio trefi

Bellach mae pum swyddog cyswllt canol trefi, a gyllidir trwy Gronfa Ffyniant Bro'r DU yn eu swyddi ac yn cefnogi datblygu economaidd ledled Powys.

Dyrannwyd trefi i bob swyddog cyswllt, naill ai yng ngogledd orllewin, gogledd ddwyrain, canol, de orllewin neu dde ddwyrain Powys a'u tasg yw cynghori a helpu cynghorau tref, busnesau, elusennau, mentrau cymdeithasol a grwpiau gwirfoddol i gynllunio, cyflenwi a monitro prosiectau ym maes datblygu economaidd.

Mae'r Swyddogion newydd fel a ganlyn:

- Bobby Gough - Y Drenewydd, Llanidloes a Machynlleth. Manylion cyswllt: regeneration@powys.gov.uk.
- Philip Jones - Y Trallwng, Llanfair Caereinion, Llanfyllin a Threfaldwyn. Manylion cyswllt: regeneration@powys.gov.uk.
- Richard Morgan - Llandrindod, Tref-y-clawdd, Llanandras a Rhaeadr Gwy. Manylion cyswllt: regeneration@powys.gov.uk.
- Rhys Howells - Ystradgynlais, Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd. Manylion cyswllt: regeneration@powys.gov.uk.
- Ayden Davies - Crughywel, Y Gelli Gandryll a Thalgarth. Manylion cyswllt: regeneration@powys.gov.uk.

Un o'r ffynonellau cyllid y gall sefydliadau gael eu hatgyfeirio atynt yw Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi, cyllid sy'n dod gan Lywodraeth Cymru.

Gellir defnyddio'r arian yma i dalu costau cyfalaf er mwyn creu rhagor o gartrefi, eiddo masnachol a gwelliannau i ffryntiau siopau yng nghanol ein trefi, seilwaith gwyrdd a digidol, mannau cyhoeddus bach a gwelliannau i gyfleusterau masnachu awyr agored, prynu eiddo strategol, cefnogaeth ar gyfer stondinwyr marchnadoedd, cerddwyr a beicwyr, prosiectau dros dro, a darparu rhagor o gyfleusterau hamdden a thoiledau.

Mae'r rhaglen Trawsnewid Trefi'n darparu £7 miliwn ar gyfer prosiectau adfywio ym Mhowys a Cheredigion dros gyfnod o dair blynedd.

Darllenwch yr erthygl lawn yma: [Swyddogion cyswllt i gefnogi adfywio trefi]




## Astudiaeth Achos - Cais i wneud Powys yn brif gyrchfan twristiaeth ddiwylliannol

Mae prosiect sydd am osod Powys ar y map, drwy ddathlu ei diwylliant a'i threftadaeth yn mynd rhagddo bellach.

Mae'r cwmni ymgynghori Cymreig, Anian, wedi cael y dasg o roi bywyd newydd i'r hyn sydd gan y sir i'w gynnig o ran twristiaeth ddiwylliannol a rhoi ymwybyddiaeth newydd o falchder i'w phreswylwyr, ar ôl i Dîm Datblygu Economaidd ac Adfywio Powys lwyddo i ennill grant o £30,000 ar gyfer y gwaith oddi wrth Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth DU. (Ffyniant Bro).

Caiff ymchwil ei wneud i asedau diwylliannol rhagorol y sir - o'i hanes canoloesol i wyliau modern heddiw - er mwyn blaenoriaethau syniadau. Yna bydd cynllun gweithredu tair blynedd o hyd yn cael ei lansio, gan amlinellu cyfleoedd am brofiadau newydd i ymwelwyr ac ymgyrchoedd marchnata.

Gallwch ddweud eich dweud drwy gwblhau'r arolwg byr hwn ar-lein.

Am ragor o wybodaeth am Astudiaeth Twristiaeth Diwylliannol Powys, e-bostiwch: tourism@powys.gov.uk

Darllenwch yr erthygl lawn yma: Cais i wneud Powys yn brif gyrchfan twristiaeth ddiwylliannol

## Cyfleoedd cyfredol gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar draws Canolbarth Cymru

Mae Cynghorau Sir Ceredigion a Powys yn gweithredu cynlluniau grant i gefnogi busnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u crynhoi yma:

### Cyngor Sir Ceredigion

### Cronfa Cefnogi Busnes Lleol Cynnal y Cardi

- Wedi'i anelu at fusnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, agorodd ceisiadau ar gyfer Cronfa Cynnal y Cardi ar 1 Chwefror ond oherwydd galw mawr, nid oes unrhyw geisiadau pellach yn cael eu derbyn ar hyn o bryd.
- Mae 29 o brosiectau Cymunedol a 52 o brosiectau Busnes wedi'u cymeradwyo hyd yn hyn o dan y cynllun.

### Cronfa Rhaglen Digwyddiadau Cynnal y Cardi

Mae cyfle ariannu newydd wedi'i lansio i gefnogi ymrwymiad y Cyngor i ddenu mwy o ddigwyddiadau rhyngwladol a chenedlaethol i Geredigion.

The focus of Cynnal y Cardi’s Events Programme Fund will be on:

- Bydd Cronfa Rhaglen Digwyddiadau Cynnal y Cardi yn canolbwyntio ar:Denu ymwelwyr i'r Sir.
- Mae’n hanfodol bod ceisiadau yn dangos sut y bydd gan y digwyddiad fudd i’r Sir gyfan, yn ogystal â manteision rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.
- Cefnogi twf busnesau cysylltiedig (buddion busnes an-uniongyrchol) a datblygu swyddi sydd o werth uwch.
- Datblygu a hyrwyddo digwyddiadau a phrofiadau lleol drwy gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i harchwilio. Rhaid i geisiadau ddangos sut y bydd y digwyddiad yn gwneud gwahaniaeth i unigolion, cymunedau a'r economi leol.

- Cefnogaeth ar gyfer y celfyddydau lleol, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgareddau creadigol.
- Rhaid i ddigwyddiadau gefnogi uchelgeisiau ynghylch newid yn yr hinsawdd neu'r newid i economi werdd trwy gynaliadwyedd a lleihau gwastraff

Yr isafswm grant sydd ar gael yw £30,000 a'r uchafswm yw £100,000. Bydd pob dyfarniad grant yn amodol ar fodloni meini prawf y grant.

Er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn gymwys, rhaid i ymgeiswyr sydd â diddordeb ddarllen y nodiadau cyfarwyddyd yn ofalus ac anfon briff byr, gan amlinellu eich syniad (fformat pwynt bwled) a dadansoddiad o'r gwariant a'u anfon at: ce.cynnalycardi@ceredigion.gov.uk cyn dechrau ar y ffurflen gais.

Gall dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

### Cyngor Sir Powys

## Grant Twf Busnes Powys

### Yr ail rownd o geisiadau nawr ar agor

- Wedi'i anelu at fusnesau i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi
- Grantiau rhwng £1,000 a £25,000
- Bydd pob dyfarniad grant yn seiliedig ar 50% o gostau cymwys y prosiect neu uchafswm o £5,000 fesul swydd a grëwyd a/neu £5,000 fesul swydd a ddiogelir, pa un bynnag sydd leiaf. (Rhaid creu o leiaf un swydd newydd a/neu un swydd cyfwerth ag amser llawn wedi'i diogelu, er mwyn cael mynediad i'r grant.)
- Gellir defnyddio cyllid i helpu i ariannu cynlluniau cyfalaf a phrosiectau refeniw untro ond ni ellir ei ddefnyddio i dalu costau rhedeg arferol
- Mae'r grant ar agor nes bod arian yn cael ei glustnodi'n llawn
- Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Cyngor Sir  Powys: Grant Twf Busnes Powys neu e-bostiwch: regeneration@powys.gov.uk

## Galw am ddatganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau celfyddydol y sir

Mae rhaglen ariannu sydd wedi'i chreu i gefnogi'r celfyddydau a'r sefydliadau creadigol ym Mhowys bellach yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer syniadau prosiect.

Llwyddodd Gwasanaeth Celfyddydau Cyngor Sir Powys i sicrhau £675,000 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG).

Gofynnir yn awr i sefydliadau celfyddydol ledled y sir i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb gyda'u syniadau prosiect erbyn dydd Mawrth, 26 Mawrth.

Darllenwch mwy yma.

## Lluosi - Cyllid wedi'i ddyrannu i 14 prosiect i wella rhifedd ymhlith oedolion ledled Canolbarth Cymru

Yn dilyn galwad yn ddiweddar am brosiectau fydd yn ceisio gwella sgiliau rhifedd ymhlith oedolion, cafodd 14* prosiect eu cymeradwyo ledled rhanbarth Canolbarth Cymru.


Drwy raglen 'Lluosi' Llywodraeth y DU, sy'n rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, rhoddir dyraniad o bron i £2 miliwn i gyflwyno amrywiaeth o brosiectau.

Ymhlith y prosiectau sydd wedi cael arian y mae rhai sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cefnogi pobl i fod yn fwy hyderus gyda rhifau.
- Rhedeg cyrsiau i helpu pobl i ddefnyddio rhifedd i reoli eu harian.
- Gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu cyrsiau ar y sgiliau rhifedd y mae arnynt eu hangen yn y gweithle.
- Darpariaeth drwy sefydliadau cymunedol er mwyn cysylltu â'r dysgwyr mwyaf anoddaf i'w cyrraedd.

Darllenwch mwy am brosiectau Lluosi yn y rhanbarth yma.

* Ar hyn o bryd mae 23 o brosiectau lluosi ar waith ledled Canolbarth Cymru gan fod 9 prosiect eisoes wedi'u cymeradwyo cyn yr alwad agored olaf am Lluosi.




## Cwrdd â'r Tîm:

Angharad Massow - Uwch Swyddog Cyfathrebu, Tyfu Canolbarth Cymru



- **Pryd wnaethoch chi ddechrau gyda'r tîm?**

Dechreuais yn y swydd hon ym mis Mehefin 2022 ar ôl cael fy secondio o Dîm Cyfathrebu Cyngor Sir Ceredigion lle’r oeddwn wedi bod yn gweithio ers 2017.

- **A allwch ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

Rwy’n ymwneud â phob agwedd ar gyfathrebu! Mae hynny’n cynnwys cyfathrebu’n fewnol â staff Tyfu Canolbarth Cymru ac â chydweithwyr ar draws y ddau awdurdod lleol, a’r holl waith cyfathrebu allanol â’n rhanddeiliaid ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ein gwefan, drwy greu fideos a chyhoeddiadau, a thrwy’r llythyr newyddion misol hwn wrth gwrs!

Rwy’n cynorthwyo holl reolwyr Tyfu Canolbarth Cymru drwy gynllunio mewn da bryd sut i roi gwybod i randdeiliaid pryd y bydd datblygiadau allweddol yn digwydd neu wedi digwydd, ac rwyf hefyd yn cyfeirio pobl at wybodaeth bwysig neu’n rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiad neu arolwg sydd ar ddod.

Mae llawer o waith caib a rhaw i’w wneud cyn y bydd deunydd yn barod i’w ddangos i’r cyhoedd; rhaid cynllunio cynnwys, gwneud gwaith dylunio, cael cymeradwyaeth, gwirio bod y wybodaeth yn hygyrch, a’i chyfieithu. Mae’r holl gamau hyn yn digwydd ar gyfer sawl eitem wahanol ar yr un pryd, felly mae’n hollbwysig bod yn drefnus!

Yr hyn rwy’n ei fwynhau am fy rôl yw fy mod yn dod i adnabod holl aelodau’r tîm yn dda iawn, ac yn dod i wybod pa ddatblygiadau y maent yn gweithio arnynt oherwydd bod gwaith cyfathrebu’n cynnwys pawb.

- **Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

Mae gwefan Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei hailwampio, felly rwy’n llawn cyffro ynglŷn â bod yn rhan o’r gwaith hwnnw. Rydym am sicrhau bod y wefan yn hawdd i’w defnyddio a’i bod yn cynnwys rhai nodweddion newydd nad oeddent ar gael o’r blaen.

- **Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

Mae timau Tyfu Canolbarth Cymru wedi tyfu ers i fi ddechrau, sy’n golygu bod pob tîm yn cymryd camau breision i greu newid a chyfleoedd o safbwynt yr economi a sgiliau yn y Canolbarth.

Pan ymunais â’r tîm yn wreiddiol, roedd Cytundeb Terfynol Bargen Twf Canolbarth Cymru newydd gael ei lofnodi ychydig fisoedd ynghynt gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol y rhanbarth, sef Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Erbyn hyn, mae’r dyraniad cyllid cyntaf wedi cyrraedd y rhanbarth ac mae llawer o waith yn digwydd yn y cefndir, gyda holl noddwyr y prosiectau’n symud eu hachosion busnes yn eu blaen. Rwy’n edrych ymlaen at yr adeg pan fydd y cyllid yn gallu rhoi hwb ymlaen i’r prosiectau hyn a phan fydd modd rhannu’r newyddion cyffrous â phawb.

Mae wedi bod yn wych hefyd cael bod yn rhan o’r gwaith o godi ymwybyddiaeth ynghylch cyfran y Canolbarth o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a gweld faint o fusnesau a sefydliadau sydd wedi elwa o’r cyllid hwn yn barod. Mae gwybod eich bod yn rhan o’r broses yn rhoi boddhad mawr pan fyddwch yn gweld sut y mae cyllid yn gallu bod o fudd uniongyrchol i’r gymuned a’r bobl sydd o’ch cwmpas.

- **Beth oedd eich cyflawniad mwyaf?**

Mae hynny’n anodd gan fod llawer o fy ngwaith yn digwydd yn y cefndir neu y tu ôl i’r camera neu’r dudalen ar gyfryngau cymdeithasol, ac mae wir yn ymdrech ar y cyd rhyngof fi a’r tîm neu’r rheolwr yr wyf yn ei gynorthwyo ar y pryd – yr ymdrech gan y tîm sy’n bwysig.

Er hynny, pe bai’n rhaid i fi ddewis un, byddwn yn dweud y llythyrau newyddion misol hyn, gan mai fy mabi i oedd hwn o’r dechrau. Ers dechrau cyhoeddi’r llythyr newyddion 19 mis yn ôl, rydym wedi gweld ein rhestr bostio’n tyfu. Dyma’r ffordd orau o rannu newyddion a gwybodaeth am

ddatblygiadau nid yn unig ar draws timau Tyfu Canolbarth Cymru ond hefyd â'n rhanddeiliaid, felly mae'n dangos gweithio mewn partneriaeth ar ei orau.

Y tu allan i'r gwaith, fy nghyflawniad personol yw cymhwyso'n hyfforddwr campau ar gylchyn crog yn fy 40au! Rwy'n cynnal dosbarthiadau gyda'r hwyr yn fy nghampfa leol yn Llanbedr Pont Steffan i bobl o bob oed a phob lefel o ran ffitrwydd. Rwyf wrth fy modd yn gweld fy myfyrwyr yn dod yn fwy heini a chryf ac yn cael llawer o hwyl ar yr un pryd – rwy'n credu'n gryf mewn ymarfer corff, cryfder a chadw'r corff mewn cyflwr da drwy gydol eich oes, ac mae hefyd yn ffordd dda o gael gwared ar straen!



- **Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

**Rhagweithiol** - Mae pob aelod o'n tîm yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o geisio sbarduno newid a dod â chyfleoedd newydd i'r Canolbarth, boed hynny o ran sgiliau, buddsoddiad, menter neu fwy o gyllid – ac i wneud hynny, rhaid i ni i gyd fod yn rhagweithiol. '*Does dim yn newid os nad oes dim yn newid*.'

# Newyddion eraill TCC

## Digwyddiad llwyddiannus ar ddatgarboneiddio yn helpu busnesau i baratoi ar gyfer dyfodol cynaliadwy

Roedd Tyfu Canolbarth Cymru ar y cyd â Chynghorau Sir Ceredigion a Phowys, wedi cynnal digwyddiad ar ddatgarboneiddio ar ddydd Llun, 11 Mawrth 2024 yn Fferm Bargoed gan dynnu ynghyd arweinwyr, arbenigwyr a busnesau o'r sector a oedd yn awyddus i edrych ar ffyrdd o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chostau ynni.

Roedd y digwyddiad *Atebion busnes Cynaliadwy yng Nghanolbarth Cymru: Lleihau allyriadau a chostau* yn cynnwys trafodaethau difyr gan banel, gweithdai rhyngweithiol a chyflwyniadau gan Fusnes Cymru, y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r rhwydweithiau ynni. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i ddod i ddeall mwy am ddatgarboneiddio ac am strategaethau ymarferol ar gyfer datgarboneiddio eu gweithrediadau a chyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy.

Darllenwch mwy am y digwyddiad yma.











## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd?  Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales